



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Rheoliadau Drafft ar gyfer Cymru: Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid

Ymgynghoriad ar bedair set o Reoliadau drafft ar gyfer Cymru i gefnogi'r gwaith o weithredu Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 a'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid. Mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- Eiriolwyr Annibynnol Galluedd Meddyliol
- Proffesiynolion Galluedd Meddyliol Cymeradwy
- Pwy sy'n cael cynnal asesiadau, gwneud penderfyniadau a chynnal adolygiadau cyn-awdurdodi
- Monitro'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ac adrodd arnynt

Dyddiad cyhoeddi: **17 Mawrth 2022**

Camau i'w cymryd: **14 Gorffennaf 2022**

Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar bedair set o Reoliadau drafft a fydd yn cefnogi'r gwaith o roi'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid newydd ar waith yng Nghymru, fel y'u cyflwynwyd gan Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019, yn ogystal â'r Asesiadau Effaith drafft cysylltiedig.

Sut i ymateb

Anfonwch eich ymatebion i'r ymgynghoriad erbyn **14 Gorffennaf 2022** drwy ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:

Llenwi ein [ffurflen ar-lein](#)

Llwytho ein ffurflen ymateb i lawr, ei llenwi a'i hanfon dros e-bost at:

MentalHealthandVulnerableGroups@llyw.cymru

Llwytho ein ffurflen ymateb i lawr, ei llenwi a'i phostio at:

Y Tîm Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed
Llywodraeth Cymru
4^{ydd} Llawr Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau o'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill ar gais.

Dyma wefan yr ymgynghoriad:

<https://llyw.cymru/diogeliadau-amddiffyn-rhyddid>

Mae fersiynau Saesneg / Cymraeg clir a hawdd eu darlleno'r Rheoliadau drafft ar gyfer Cymru, a gwybodaeth am Gynllun y Gweithlu ar gyfer y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a chynlluniau ar gyfer monitro ac adrodd hefyd ar gael drwy'r ddolen uchod.

Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Tîm Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed
Llywodraeth Cymru
4^{ydd} Llawr Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost:

MentalHealthandVulnerableGroups@llyw.cymru

Rhif ffôn: 0300 060 4400

**Mae hefyd ar gael
yn Saesneg yn:**

<https://gov.wales/liberty-protection-safeguards>

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gcontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddiill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdano chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'n cael ei defnyddio neu, os ydych chi am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).....	4
Rhagair.....	7
Crynodeb.....	10
Beth yw cefndir yr ymgynghoriad: beth yw'r prif faterion dan sylw?	10
Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd? Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ac Amddifadu o Ryddid.....	11
Deddf Galluedd Meddyliol 2005	11
Amddifadu o Ryddid	11
Tystiolaeth dros newid: y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid	12
Trosolwg o'r LPS.....	14
Crynodeb – Rheoliadau LPS ar gyfer Cymru	16
Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol) (Cymru) (Diwygio) 2022.....	16
Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Cymhwysra i gynnal Asesiadau, Gwneud Penderfyniadau a Chynnal Adolygiadau Cyn Awdurdodi) (Cymru) 2022.....	17
Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Hyfforddiant a Meini Prawf ar gyfer Cael Cymeradwyaeth fel Proffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy (Cymru) 2022.....	18
Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Monitro ac Adrodd) (Cymru) 2022	19
Cwestiynau ymgynghori ehangach ynghylch gweithredu'r LPS yng Nghymru	20
Ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y Cod Ymarfer drafft ar gyfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid	21
Ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar Reoliadau trosiannol a diwygiadau canlyniadol	22
Atodiad 1 - CRYNODEB: Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol) (Cymru) (Diwygio) 2022.....	23
Atodiad 2 - CRYNODEB: Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Cymhwysra i gynnal Asesiadau, Gwneud Penderfyniadau a Chynnal Adolygiadau Cyn Awdurdodi) (Cymru) 2022	25
Atodiad 3 - CRYNODEB: Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Hyfforddiant a Meini Prawf ar gyfer Cymeradwyaeth fel Proffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy (Cymru) 2022.....	28
Atodiad 4 - CRYNODEB: Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Monitro ac Adrodd) (Cymru) 2022	30
Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	32

Rhagair

Yr hawl i ryddid yw un o'n hawliau dynol mwyaf sylfaenol. Y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yw'r cynllun sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer asesu ac awdurdodi amddifadu o ryddid. Cawsant eu cyflwyno i ddiogelu hawliau dynol yr unigolion hynny nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i gydsynio i gael eu hamddifadu o'u rhyddid. Yn dilyn dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos "Cheshire West"¹, cyflwynodd Llywodraeth y DU y Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019, gyda'r bwriad o ddiddymu DoLS a'u disodli â'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (yr LPS). Yn wahanol i'r DoLS (a oedd ond yn berthnasol i drefniadau mewn cartrefi gofal ac ysbytai ac i bobl 18 oed a hŷn), bydd yr LPS yn berthnasol ym mhob lleoliad. Am y tro cyntaf, bydd yr LPS yn berthnasol yng ngartrefi pobl a byddant hefyd yn berthnasol i unrhyw un 16 oed ac hŷn.

Er bod yr LPS yn bolisi lle mae'r gwaith o wneud penderfyniadau wedi'i gadw yn ôl ar gyfer Llywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru yn gwbl gefnogol i'r diwygiadau sy'n cael eu cyflwyno. Rydym wedi croesawu Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 a'r pwerau gwneud rheoliadau y mae'n eu darparu ar gyfer Gweinidogion Cymru. Cydnabyddir yn eang bod nifer o heriau'n gysylltiedig â'r system DoLS bresennol, yn enwedig yng ngoleuni'r cynnydd diweddar yn nifer y ceisiadau DoLS – a welsom ledled Cymru a Lloegr. Bydd cyflwyno'r mesurau diogelu newydd yn sicrhau gwell canlyniadau i bobl sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid a'u teuluoedd drwy greu fframwaith cyfreithiol symlach newydd sy'n cydymffurfio ag Erthygl 5 (hawl i ryddid) ac Erthygl 8 (hawl i barch at fywyd preifat a theuluol) y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Yn benodol, bydd yr LPS yn darparu system fwy effeithiol sy'n rhoi'r person sy'n cael ei amddifadu o ryddid wrth galon y broses o wneud penderfyniadau. Bydd hyn yn integreiddio yn well ystyriaeth o'r LPS ac egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol i drefniadau gofal, cymorth neu driniaeth bob dydd, gan leihau dyblygu ac ailadrodd i unigolion, eu teuluoedd a'r rhai sy'n eu cefnogi.

I gyd-fynd ag ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y Rheoliadau drafft ar gyfer Lloegr, mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar Reoliadau drafft a fydd yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r LPS yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau drafft yn canolbwyntio ar benodi a rôl Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Cymeradwy; pwy sy'n cael cynnal asesiadau, gwneud penderfyniadau a chynnal adolygiadau cyn-awdurdodi; penodi a rôl y Proffesiynolion Galluedd Meddyliol Cymeradwy newydd; a monitro ac adrodd ar y mesurau diogelu newydd. Rydym hefyd yn ymgynghori ar nifer o Asesiadau Effaith drafft a byddwn yn defnyddio'r cyfnod ymgynghori i gasglu rhagor o dystiolaeth o'r effeithiau o ran y Rheoliadau.

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn ymgynghori ar y Cod Ymarfer drafft ategol ar gyfer yr LPS a fydd yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Mae'r Rheoliadau ar gyfer Cymru a'r Cod Ymarfer yn mynd law yn llaw – felly rydym yn annog pob rhanddeiliad yng Nghymru i ymateb hefyd i [ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y Cod Ymarfer drafft](#).

¹ P v Cheshire West and Chester Council; P and Q v Surrey County Council [2014] UKS 19. Rhoddodd y dyfarniad hwn ddiffiniad llawer ehangach o amddifadu o ryddid nag y deallid yn flaenorol ei fod yn gymwys yng nghyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol.


Rydym yn ddiolchgar am yr ymgysylltiad y mae rhanddeiliaid wedi'i ddarparu hyd yma drwy Grŵp Llywio Gweithredu'r LPS ar gyfer Cymru a drwy gefnogi ffrydiau gwaith ac is-grwpiau ar y gweithlu a hyfforddiant; monitro ac adrodd; pobl ifanc 16 a 17 oed; a'r pontio o DoLS i'r LPS. Mae'r ymgynghoriad yn rhoi cyfle i ni adolygu'r canlyniadau hynny ac ymgysylltu'n ehangach. Byddwn hefyd yn defnyddio'r ymgynghoriad i lywio ein gwaith cynllunio ar gyfer y trefniadau pontio o DoLS i'r LPS. Mae'n hanfodol ein bod mewn sefyllfa gref wrth i ni symud o un system i'r llall ac rydym yn cydnabod yn llwyr y bydd llwyddiant yr LPS yn dibynnu ar wreiddio egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ar draws amrywiaeth o leoliadau.

Yn y pen draw, mae cyflwyno'r mesurau diogelu newydd yn rhoi cyfle inni gryfhau ein sefyllfa yng Nghymru o ran diogelu hawliau dynol y bobl hynny sydd heb alluedd meddyliol. Felly, mae eich barn am y Rheoliadau drafft ar gyfer Cymru yn hollbwysig.




Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services




Lynne Neagle AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing



Julie Morgan AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

A handwritten signature in black ink, consisting of a stylized 'J' followed by a series of loops and a horizontal stroke.

Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Minister for Education and Welsh Language

Crynodeb

Beth yw cefndir yr ymgynghoriad: beth yw'r prif faterion dan sylw?

Rydym yn ymgynghori ar Reoliadau newydd ar gyfer Cymru a fydd yn cefnogi'r gwaith o roi'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (yr LPS) ar waith. Bydd y mesurau diogelu newydd yn darparu amddiffyniadau a hawliau pwysig i bobl nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i gytuno ar drefniadau gofal, cymorth neu driniaeth, pan mae'r trefniadau hyn gyfystyr ag amddifadu o ryddid.

Dyma'r pedair set o Reoliadau drafft ar gyfer Cymru:

- **Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol) (Cymru) (Diwygio) 2022**

Bydd y Rheoliadau hyn ar gyfer Cymru yn diwygio'r Rheoliadau presennol² ar rôl a phenodi Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Cymeradwy (IMCAs). Mae IMCAs yno i gefnogi'r person sy'n derbyn gofal dan y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a'r unigolion hynny a ddynodwyd yn Berson Priodol y sawl sy'n derbyn gofal. Mae crynodeb ar gael yn Atodiad 1.

- **Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: cymhwysra i gynnal asesiadau, gwneud penderfyniadau a chynnal adolygiadau cyn awdurdodi) (Cymru) 2022**

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi pwy sy'n cael cynnal asesiadau, gwneud penderfyniadau a chynnal adolygiadau cyn-awdurdodi fel rhan o'r broses newydd ar gyfer awdurdodi trefniadau sydd gyfystyr ag amddifadu o ryddid, ar gyfer pobl nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i gytuno i'r trefniadau hynny. Mae crynodeb ar gael yn Atodiad 2.

- **Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: hyfforddiant a meini prawf ar gyfer cael cymeradwyaeth fel Proffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy) (Cymru) 2022**

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi trefniadau ar gyfer rôl a chymeradwyaeth awdurdodau lleol o Broffesiynolion Galluedd Meddyliol Cymeradwy (AMCPs). Mae hon yn rôl newydd o fewn yr LPS, sydd wedi'i chynllunio i ddarparu mesurau diogelu ychwanegol i bobl drwy ymgymryd â phroses cyn-awdurdodi a / neu benderfynu a yw'r amodau awdurdodi'n cael eu bodloni. Mae crynodeb ar gael yn Atodiad 3.

- **Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: monitro ac adrodd) (Cymru) 2022**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cefnogi'r gwaith o fonitro ac adrodd ar y system newydd a gweithredu'r LPS. Mae'r Rheoliadau'n nodi'r tri Chorff Monitro – Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros

² Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/852 (Cy. 77)).

Addysg a Hyfforddiant (Estyn) – a fydd yn gyfrifol am fonitro ac adrodd ar y mesurau diogelu newydd. Mae crynodeb ar gael yn Atodiad 4.

Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd? Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ac Amddifadu o Ryddid

Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Mae Erthygl 5 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) yn gwarantu'r hawl i ryddid ac yn darparu na ddylai neb gael ei amddifadu o'i ryddid yn fympwyol, oni chymerir camau diogelu priodol.

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (MCA 2005) wedi'i chynllunio i amddiffyn a grymuso pobl sydd efallai heb y galluedd meddyliol ar hyn o bryd i wneud eu penderfyniadau eu hunain am eu gofal, eu cymorth neu eu triniaeth. Mae hefyd yn caniatáu i bobl sydd â galluedd meddyliol i baratoi ar gyfer cyfnod yn y dyfodol pan na fyddant, o bosibl, â galluedd.

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn berthnasol yng Nghymru ac yn Lloegr.

Amddifadu o Ryddid

Fe wnaeth dyfarniad gan Lys Hawliau Dynol Ewrop yn 2004³ nodi bwlch yng nghyfraith y DU, a elwir yn "fwlch Bournemouth", lle'r oedd pobl nad oedd â'r galluedd i gydsynio i driniaeth yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid at ddibenion triniaeth iechyd meddwl dan y gyfraith gyffredin yn hytrach na dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Roedd hyn yn golygu eu bod felly'n cael eu hamddifadu o'r mesurau diogelu gweithdrefnol angenrheidiol a fynnir gan yr hawl i ryddid (Erthygl 5).

Cyflwynwyd y system bresennol, sef Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS), i gau'r bwlch hwn a daeth i rym yn 2009 drwy gyflwyno darpariaethau newydd a ychwanegwyd at Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007). Eu bwriad oedd sicrhau, pan fo person yn destun trefniadau sydd gyfystyr ag amddifadu o ryddid, ac nad yw'n gallu cydsynio i'r trefniadau hynny, bod ganddo fynediad at y mesurau diogelu angenrheidiol.

Ym mis Mawrth 2014, cyflwynodd dyfarniad y Goruchaf Lys a elwir yn ddyfarniad "Cheshire West"⁴ y 'Prawf Eithaf'. Mae hwn yn datgan bod unigolyn nad oes ganddo'r galluedd i gydsynio i'r trefniadau ar gyfer ei ofal yn cael ei amddifadu o'i ryddid os yw:

³ HL v United Kingdom (2005) 40 EHRR 32 (Cais rhif 45508/99)

⁴ P v Cheshire West and Chester Council; P and Q v Surrey County Council [2014] UKS 19.

1. yn cael ei oruchwyllo a'i reoli'n barhaus.
2. ddim yn rhydd i adael ei leoliad gofal.

Oherwydd y dyfarniad hwn, mae nifer yr achosion sy'n cael eu cyfeirio gan ysbytai a chartrefi gofal at y broses DoLS wedi cynyddu, yng Nghymru, roedd 631 o geisiadau am awdurdodiadau DoLS yn 2013/14. Derbyniwyd cyfanswm o 6,486 o geisiadau DoLS newydd a pellach gan fyrdau iechyd yn 2019-20. Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019-20, derbyniwyd cyfanswm o 10,402 o geisiadau gan awdurdodau lleol ledled Cymru. Arweiniodd hyn at gynydd sylweddol yn nifer y geisiadau sydd yn yr arfaeth.⁵

Yn ogystal, canfu Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yn ei adroddiad craffu ôl-ddeddfwriaethol yn 2014 fod y ddeddfwriaeth yn "fiwrocrataidd" ac yn "rhy gymhleth" ac nad oedd y mesurau diogelu'n cael eu defnyddio o gwbl yn aml. Yn dilyn hynny, adolygodd Comisiwn y Gyfraith y Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r DoLS. Argymhellodd y dylid diddymu'r DoLS a chyflwyno rhai newydd yn eu lle.⁶

Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth y DU⁷ i Adroddiad Comisiwn y Gyfraith ym mis Mawrth 2018. ⁸ O ganlyniad, cafodd yr LPS eu cyflwyno gan Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 (MC(A)A 2019) a byddant yn cael eu rhoi ar waith pan fydd Rheoliadau LPS ar gyfer Lloegr yn cael eu cadarnhau yn Senedd y DU a phan fydd Rheoliadau LPS ar gyfer Cymru yn cael eu pasio gan Senedd Cymru.

Tystiolaeth dros newid: y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid

Bydd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (yr LPS) yn disodli'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) fel y system sy'n awdurdodi trefniadau sydd gyfystyr ag amddifadu o ryddid er mwyn darparu gofal neu driniaeth i unigolyn sydd heb y galluedd meddyliol perthnasol i gydsynio i'r trefniadau hynny, yng Nghymru a Lloegr. Er bod gan yr LPS yr un pwrpas â'r DoLS, mae'r system newydd wedi'i llunio'n wahanol mewn sawl ffordd.

Bydd y system newydd yn rhoi'r person wrth galon y broses o wneud penderfyniadau ac yn cynyddu cyfranogiad, llais a rheolaeth. Bydd yr LPS yn cyflwyno dyletswydd benodol i ymgynghori â'r person, a'r rhai sydd â diddordeb yn eu lles, i ganfod eu dymuniadau a'u teimladau am y trefniadau arfaethedig. Bydd y rheini sy'n agos at y person hefyd yn gallu darparu cynrychiolaeth a chefnogaeth iddo drwy rôl newydd y 'Person Priodol'. Ar ben hynny, bydd hawliau pobl sydd wrth galon yr achosion mwyaf cymhleth yn cael eu hystyried a'u cynnal gan 'Broffesiynolion Galluedd Meddyliol Cymeradwy' (AMCP) newydd.

⁵ [Adroddiad Blynyddol AgC ac AGIC ar DoLS 2019-20](#)

⁶ [Galluedd Meddyliol ac Amddifadu o Ryddid | Cymdeithas y Gyfraith](#)

⁷ [Datganiadau ysgrifenedig - Cwestiynau ysgrifenedig, atebion a datganiadau - Senedd y DU](#)

⁸ [Galluedd Meddyliol ac Amddifadu o Ryddid | Cymdeithas y Gyfraith](#)

Bydd yr LPS yn cwmpasu ystod ehangach o leoliadau na dim ond ysbytai a chartrefi gofal, gan ddarparu amddiffyniadau i bobl sy'n derbyn gofal, cymorth neu driniaeth yn eu cartrefi eu hunain neu mewn llety preifat. Bydd hyn yn gwneud mynediad at fesurau diogelu yn fwy cyson i fwy o bobl.

Mae'r system newydd wedi'i chynllunio i integreiddio'n well â chyfreithiau a fframweithiau perthnasol eraill. Y nod yw gwreiddio arferion yr LPS mewn gofal iechyd a chynllunio gofal eraill, fel Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae'r integreiddio hwn yn gwneud y broses yn symlach i'r person sy'n derbyn gofal ac i'r rhai sy'n gofalu amdanynt ac yn haws i weithwyr proffesiynol perthnasol ar draws byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol drwy leihau dyblygu.

Mae egwyddorion craidd Deddf Galluedd Meddyliol 2005 wrth galon y dyluniad arfaethedig ar gyfer yr LPS. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod arferion ac ymwybyddiaeth o alluedd meddyliol yn cyd-fynd yn well ar draws gwahanol leoliadau a phroffesiynau. Bydd yr LPS yn ymestyn mesurau diogelu i bobl ifanc 16 a 17 oed. Bydd hyn yn gwella mesurau diogelu ar gyfer pobl ifanc. Er enghraifft, ni fydd angen penderfyniad gan y Llys Gwarchod mwyach ym mhob achos.

Yng Nghymru, bydd byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn cael eu dynodi'n Gyrff Cyfrifol ac yn ystyried ac, os yw'n briodol, yn awdurdodi trefniadau. Bydd hyn yn helpu i wreiddio cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar draws gweithgareddau'r Cyrff Cyfrifol. Bydd nifer yr asesiadau sydd eu hangen i ganiatáu awdurdodiad amddifadu o ryddid hefyd yn cael ei leihau o chwech i dri, ac mewn rhai achosion bydd Cyrff Cyfrifol yn gallu ystyried tystiolaeth berthnasol sy'n bodoli eisoes wrth adolygu neu adnewyddu awdurdodiadau. Mewn rhai amgylchiadau, gall awdurdodiadau sy'n cael eu hadnewyddu redeg am dair blynedd, yn hytrach nag un, fel yr oedd dan DoLS.

Fy Siwrnai LPS

BYDD FY SIWRNAI YN DECHRAU OS CREDIR Y GALL FOD GEN I DDIFFYG GALLUEDD I GYDSYNIO I'M GOFAL A'M TRINIAETH, AC Y GALL FOD GEN I ANHWYLDER MEDDYLIOL.

Mae'r gofal a'r driniaeth sy'n cael eu cynnig, neu yr wyf yn eu cael, yn golygu:

- 1) fy mod neu y byddaf o dan oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus; **AC**
- 2) nad wyf yn rhydd i adael y man lle mae'r trefniadau'n digwydd; **AC**
- 3) nad oes gen i'r galluedd i gydsynio i'r gofal a'r driniaeth honno.

Bydd Corff Cyfrifol yn gyfrifol am awdurdodi fy ngofal a'm triniaeth. Bwrdd iechyd neu awdurdod lleol fydd y corff hwn. Byddan nhw'n gweithio gyda'i gilydd i benderfynu pwy sy'n gyfrifol, gan ddilyn egwyddor "dim drws anghywir".

A oes ffrind neu berthynas a all fy helpu fel Person Priodol?

OES

Bydd y Corff Cyfrifol yn sicrhau bod fy Mherson Priodol yn rhan o'm siwrnai LPS ac yn darparu IMCA iddo os oes angen.

NAC OES

A oes angen Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA) arnaf i (neu fy Mherson Priodol)? Os oes, bydd un yn cael ei benodi gan y Corff Cyfrifol.

Bydd y Corff Cyfrifol yn **YMGYNGHORI** ag unrhyw un o'm dewis, ee ffrindiau/teulu/gofalwyr di-dâl.

Bydd y Corff Cyfrifol yn sicrhau fy mod i **A / NEU** fy Mherson Priodol yn deall y broses LPS.


Asesiadau a Phenderfyniadau gan broffesiynolion ar yr amodau Awdurdodi.

A oes gen i ddiffyg galluedd i gydsynio i'r trefniadau? AC

A oes gen i anhwylder meddyliol? AC

A yw'r trefniadau'n angenrheidiol ac yn gymesur?

Mae ateb negyddol i unrhyw un o'r cwestiynau hyn yn golygu bod angen adolygu'r trefniadau gofal, cymorth neu driniaeth.



Crynodeb – Rheoliadau LPS ar gyfer Cymru

Bydd gweithredu Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 (MC(A)A 2019) yng Nghymru yn cael ei ategu gan bedair set o Rheoliadau drafft. Rhaid i Senedd Cymru gymeradwyo'r Rheoliadau drafft hyn cyn y gellir gweithredu'r LPS. Maent yn nodi'r gofynion cyfreithiol ar gyfer:

- y meini prawf ar gyfer penodi a swyddogaethau IMCA;
- personau sy'n cynnal asesiadau, gwneud penderfyniadau a chynnal adolygiadau cyn-awdurdodi a'r diffiniad o gysylltiad ariannol ar gyfer y rheini sy'n cynnal adolygiadau cyn-awdurdodi;
- y meini prawf ar gyfer penodi, parhau â phenodiad, a swyddogaethau Proffesiynolion Galluedd Meddyliol Cymeradwy (AMCP); a
- cyfrifoldebau AGC, AGIC ac Estyn i fonitro ac adrodd ar weithrediad yr LPS.

Ceir crynodeb o bob un o'r Rheoliadau drafft isod – ynghyd â'n cwestiynau ymgynghori.⁹

Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol) (Cymru) (Diwygio) 2022

Mae'r Rheoliadau drafft hyn yn diwygio'r rheoliadau ar gyfer Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Cymeradwy (IMCA) sy'n gweithredu o dan adrannau 37-39 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Maent yn darparu'r gofynion ar gyfer penodi IMCA a'u swyddogaethau o dan yr LPS.

Rhoddir swyddogaethau i IMCA i gynorthwyo'r person i gymryd rhan yn y broses, i ganfod ei ddymuniadau a'i deimladau, ac i gyflwyno sylwadau i'r Corff Cyfrifol ar ran y person o dan yr LPS. Maent hefyd yn cael swyddogaethau i gefnogi'r person pan fydd awdurdodiad yn ei le.

Elfen newydd o'r LPS yw rôl y Person Priodol, ac mewn rhai achosion bydd Eiriolwr Annibynnol Galluedd Meddyliol hefyd yn cefnogi'r rôl hon. Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi swyddogaethau'r IMCA i gefnogi'r Person Priodol.

⁹ Mae'r holl gwestiynau ymgynghori hefyd wedi'u nodi yn y ffurflen ymgynghori sydd ar ddiwedd y ddogfen hon.

Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o fanylion am y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau drafft. I gael rhagor o wybodaeth am rôl yr IMCA o dan yr LPS, cyfeiriwch at y Cod Ymarfer drafft ar yr LPS – sydd hefyd yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd (dan arweiniad Llywodraeth y DU).

Mae gennym ddiddordeb yn eich barn am y canlynol:

Cwestiwn 1: A ydych chi'n cytuno bod y diwygiadau i Reoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol) (Cymru) 2007 yn nodi'n glir ac yn ddigonol swyddogaethau'r IMCA o dan yr LPS?

Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Cymhwysra i gynnal Asesiadau, Gwneud Penderfyniadau a Chynnal Adolygiadau Cyn Awdurdodi) (Cymru) 2022

Mae'r Rheoliadau drafft hyn yn nodi pa weithwyr proffesiynol sy'n cael cynnal pob asesiad a gwneud pob penderfyniad, a chynnal adolygiad cyn-awdurdodi. Dim ond meddygon a seicolegwyr sy'n cael cynnal asesiadau meddygol a gwneud penderfyniadau. Caiff meddygon, gweithwyr cymdeithasol, nyrsys, therapyddion iaith a lleferydd, seicolegwyr a therapyddion galwedigaethol gynnal pob asesiad arall a gwneud penderfyniadau.

Hefyd, rhaid i'r gweithwyr proffesiynol a nodir uchod fodloni gofynion cymhwysedd cyffredinol fel bod wedi'u hyswrio yn erbyn unrhyw rwymedigaethau, bod â'r sgiliau a'r profiad perthnasol, ac nad oes ganddynt unrhyw fuddiant ariannol yn achos y person.

Maent hefyd yn nodi'r disgrifiad o gysylltiad rhagnodedig â man lle mae rhywun yn derbyn gofal, sy'n berthnasol i unrhyw un sy'n cynnal adolygiad cyn-awdurdodi.

Mae Atodiad 2 yn rhoi rhagor o fanylion am y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau drafft. I gael rhagor o wybodaeth am gynnal asesiadau, gwneud penderfyniadau a chynnal adolygiadau cyn-awdurdodi, cyfeiriwch at y Cod Ymarfer drafft ar gyfer yr LPS – sydd hefyd yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd (dan arweiniad Llywodraeth y DU).

Mae gennym ddiddordeb yn eich barn am y canlynol:

Cwestiwn 2: A ydych chi'n cytuno bod y Rheoliadau drafft ar gynnal asesiadau, gwneud penderfyniadau a chynnal adolygiadau cyn-awdurdodi yn glir ac yn ddigonol?

Cwestiwn 3: A ydych chi'n cytuno bod y Rheoliadau drafft yn galluogi'r gweithwyr proffesiynol perthnasol i gynnal asesiadau a gwneud penderfyniadau?

Cwestiwn 4: A ydych chi'n cytuno bod y Rheoliadau drafft sy'n ymwneud â buddiant ariannol yn darparu'r mesurau diogelu angenrheidiol ar gyfer yr unigolyn sy'n derbyn gofal?

Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Hyfforddiant a Meini Prawf ar gyfer Cael Cymeradwyaeth fel Proffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy (Cymru) 2022

Mae'r Rheoliadau drafft hyn yn nodi'r meini prawf ar gyfer hyfforddiant AMCP; y meini prawf ar gyfer cymeradwyo unigolyn fel AMCP; a'r meini prawf ar gyfer cymeradwyaeth barhaus. Dyma'r prif elfennau:

- gall rhai gweithwyr proffesiynol weithredu fel AMCP;
- bydd angen i AMCP ymgymryd â **naill ai** gwrs trosi os ydynt eisoes yn Asesydd Lles Pennaf (BIA), **neu** hyfforddiant cychwynnol. Bydd angen iddynt hefyd fodloni meini prawf eraill, fel cael indemniad priodol, er mwyn cael eu cymeradwyo fel AMCP gan awdurdod lleol;
- Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cymeradwyo'r hyfforddiant trosi a'r hyfforddiant cychwynnol. Bydd awdurdodau lleol a Gofal Cymdeithasol Cymru yn gallu cymeradwyo hyfforddiant pellach.¹⁰
- Gall mwy nag un awdurdod lleol gymeradwyo AMCP;
- Bydd angen i AMCP gwblhau 18 awr o hyfforddiant pellach bob blwyddyn a bod wedi cyflawni swyddogaethau fel AMCP i safon briodol er mwyn parhau i gael eu cymeradwyo;
- mewn rhai amgylchiadau, gall AMCP gael ei eithrio rhag yr amodau ar gyfer cymeradwyaeth barhaus.

Bydd hyfforddiant trwy gyfnewid ar gael i unigolion sydd ar hyn o bryd yn gweithio fel BIA ac sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant achrededig neu heb ei achredu. Bydd yr hyfforddiant trosi hwn yn darparu'r dysgu angenrheidiol i drosi i'r rôl AMCP newydd. Bydd Cyrff Cyfrifol yn nodi'r BIA yn eu hardal i ymgymryd â hyfforddiant trosi AMCP. Dim ond yn ystod y cyfnod pontio y bydd yr hyfforddiant trosi hwn (a gymeradwywyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru) ar gael, er mwyn cefnogi datblygiad cychwynnol y gweithlu AMCP.

Bydd hyfforddiant cychwynnol ar gael i unigolion cymwys nad ydynt yn gweithio fel BIA ar hyn o bryd. Mae'r proffesiynau canlynol yn gymwys i gael eu cymeradwyo fel AMCP: nyrs lefel gyntaf; gweithiwr cymdeithasol cofrestredig yn y DU; ymarferydd seicoleg; therapydd iaith a lleferydd; a therapydd galwedigaethol.

Bydd canlyniadau'r hyfforddiant yn cynnwys yr holl ddysgu a sgiliau sydd eu hangen i ymgymryd â dyletswyddau fel AMCP. Bydd hwn yn gwrs achrededig wedi'i gymeradwyo gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

¹⁰ Gall Gweinidogion Cymru hefyd gymeradwyo hyfforddiant trosi. Fodd bynnag, rhagwelir mai Gofal Cymdeithasol Cymru fydd yn gwneud hyn.

Ar ôl i unigolyn ymgymryd â hyfforddiant trosti neu hyfforddiant cychwynnol a chael ei gymeradwyo fel AMCP, bydd angen iddo ymgymryd â 18 awr arall o hyfforddiant bob blwyddyn er mwyn cynnal ei gymeradwyaeth. Gall yr hyfforddiant pellach hwn gael ei gymeradwyo gan awdurdod lleol yng Nghymru neu Gofal Cymdeithasol Cymru, a gellir ei deilwra i ystyried arferion gorau diweddar, cyfraith achosion newydd a blaenoriaethau lleol.

Mae Atodiad 3 yn rhoi rhagor o fanylion am y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau drafft. I gael rhagor o wybodaeth am rôl yr AMCP, cyfeiriwch at y Cod Ymarfer drafft ar gyfer yr LPS – sydd hefyd yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd (dan arweiniad Llywodraeth y DU).

Mae gennym ddiddordeb yn eich barn am y canlynol:

Cwestiwn 5: A ydych chi'n cytuno bod y Rheoliadau drafft ar rôl a phenodi AMCP yn glir ac yn ddigonol?

Cwestiwn 6: A ydych chi'n cytuno bod y Rheoliadau drafft yn galluogi'r gweithwyr proffesiynol perthnasol i gyflawni rôl AMCP?

Cwestiwn 7: A ydych chi'n cytuno â'r trefniadau ar gyfer cymeradwyo AMCP?

Cwestiwn 8: Bydd tri phrif fath o hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar gyfer AMCP: hyfforddiant trosti; hyfforddiant cychwynnol; a hyfforddiant pellach. A ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu cyffredinol sy'n cael ei ddefnyddio i ddarparu hyfforddiant ar gyfer AMCP?

Cwestiwn 9: Gan gyfeirio'n benodol at hyfforddiant pellach, a ydych chi'n cytuno â'r canlynol:

- I) y gofyniad arfaethedig i gyflawni 18 awr o hyfforddiant pellach bob blwyddyn?
- II) bod cynnwys hyfforddiant pellach ddim wedi'i achredu ac wedi'i gymeradwyo gan naill ai Gofal Cymdeithasol Cymru neu awdurdod lleol yng Nghymru?

Cwestiwn 10: A ydych chi'n cytuno y dylai'r Rheoliadau drafft alluogi awdurdodau lleol i gydweithio â'u partneriaid i sefydlu trefniadau rhanbarthol neu genedlaethol ar gyfer cymeradwyo AMCP?

Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Monitro ac Adrodd) (Cymru) 2022

Mae'r Rheoliadau drafft hyn yn gosod dyletswydd ar AGC, AGIC ac Estyn i fonitro gweithrediad yr LPS yng Nghymru. Er mwyn cyflawni'r rôl hon, maent yn rhoi'r pwerau i AGC, AGIC ac Estyn ymweld â lleoliadau lle mae awdurdodiad LPS yn cael ei wneud; cael mynediad at gofnodion sy'n ymwneud â gofal a thriniaeth y person y mae'r LPS yn berthnasol iddo; cwrdd â'r person hwnnw (gyda'i ganiatâd); a chwrdd ag unrhyw un sy'n gofalu amdano neu sydd â diddordeb yn ei les. Maent hefyd yn rhoi dyletswydd ar AGC, AGIC ac Estyn i adrodd yn rheolaidd ar yr LPS.

Pan fo trefniant awdurdodedig yn cael ei wneud mewn annedd breifat neu mewn rhan o safle a ddefnyddir fel annedd breifat, rhaid i gorff monitro ofyn am ganiatâd cyn ymweld.

Bydd AGC, AGIC ac Estyn hefyd yn datblygu Strategaeth Monitro ac Adrodd ar gyfer Cymru a byddant yn ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae Atodiad 4 yn rhoi rhagor o fanylion am y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau drafft. I gael rhagor o wybodaeth am fonitro ac adrodd ar yr LPS, cyfeiriwch at y Cod Ymarfer drafft ar gyfer yr LPS – sydd hefyd yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd (dan arweiniad Llywodraeth y DU).

Mae gennym ddiddordeb yn eich barn am y canlynol:

Cwestiwn 11: A ydych chi'n cytuno bod y Rheoliadau drafft ar fonitro ac adrodd yn glir ac yn ddigonol?

Cwestiwn 12: Pan fo trefniant awdurdodedig yn cael ei wneud mewn annedd breifat neu mewn rhan o a ddefnyddir fel annedd breifat, rhaid i gorff monitro ofyn am ganiatâd cyn ymweld. Hefyd, bydd corff monitro yn gofyn am ganiatâd gan y person sy'n derbyn gofal cyn cyfarfod â hwy. Os nad oes gan berson sy'n derbyn gofal y galluedd i gydsynio, yna bydd angen gwneud penderfyniad er lles pennaf ynghylch cyfarfod o'r fath. Gall hyn gynnwys y cyrff monitro. A ydych chi'n cytuno bod y dull gweithredu sy'n seiliedig ar gydsyniad rydym yn ei gynnig ar gyfer monitro ac adrodd yn adlewyrchu hawliau pobl ac yn darparu mesurau diogelu digonol?

Cwestiynau ymgynghori ehangach ynghylch gweithredu'r LPS yng Nghymru

Yn ogystal â chwestiynau'r ymgynghoriad ynghylch y pedair set o Rheoliadau drafft ar gyfer Cymru, mae gennym ddiddordeb hefyd yn eich barn am y canlynol:

Cwestiwn 13: A ydych chi'n cytuno bod y Rheoliadau'n amddiffyn hawliau'r person a'r defnyddwyr gwasanaethau?

Cwestiwn 14: Rydym hefyd yn ymgynghori ar Femorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) drafft sy'n darparu amcangyfrifon o gostau a manteision / effeithiau ariannol gweithredu'r Rheoliadau LPS yng Nghymru. A ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o gostau a manteision / effeithiau ariannol y Rheoliadau LPS sydd wedi'u nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft?

Cwestiwn 15: Fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, rydym wedi cynnwys eitemau data arfaethedig ar gyfer Set Ddata Sylfaenol Genedlaethol LPS - sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd. A ydych chi'n cytuno â'r eitemau data sydd wedi'u cynnwys yn y Set Ddata Sylfaenol Genedlaethol ddrafft ar gyfer yr LPS yng Nghymru?

Cwestiwn 16: Rydym wedi cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant drafft i ymgynghori yn ei gylch ochr yn ochr â'r Rheoliadau drafft ar gyfer Cymru a'r Asesiad

Effaith Rheoleiddiol drafft. A ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o effeithiau Rheoliadau LPS ar hawliau plant a nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant?

Cwestiwn 17: Rydym hefyd wedi cyhoeddi Asesiad Effaith Cydraddoldeb drafft i ymgynghori yn ei gylch ochr yn ochr â'r Rheoliadau drafft ar gyfer Cymru a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft. A ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o effeithiau'r Rheoliadau LPS ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig?

Cwestiwn 18: Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ar wahân ar Gynllun Gweithlu a Fframwaith Hyfforddi – ac mae crynodeb o hwn wedi'i gynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft. A ydych chi'n cytuno y bydd Cynllun Gweithlu a Fframwaith Hyfforddi'r LPS yn hyrwyddo ac yn gwreiddio cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn?

Cwestiwn 19: Rydym hefyd wedi cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg drafft i ymgynghori yn ei gylch ochr yn ochr â'r Rheoliadau drafft ar gyfer Cymru a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft. A ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o effeithiau Rheoliadau LPS ar yr Iaith Gymraeg?

Ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y Cod Ymarfer drafft ar gyfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar Reoliadau drafft ar gyfer Cymru ar yr un pryd ag y mae Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar Reoliadau drafft ar gyfer Lloegr a Chod Ymarfer ategol ar gyfer Cymru a Lloegr.

Rhoddwyd Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ar waith ynghyd â Chod Ymarfer a luniwyd i ategu'r Ddeddf â chanllawiau ymarferol a statudol, yn egluro sut y mae'r Ddeddf yn gweithredu o ddydd i ddydd ac yn cynnig enghreifftiau o arfer gorau i ofalwyr ac ymarferwyr. Bellach, mae angen diweddarau'r Cod Ymarfer am ddau reswm allweddol.

Yn gyntaf, cafwyd deddfwriaeth a chyfraith achosion newydd, newid mewn terminoleg a newidiadau sefydliadol, a datblygiadau mewn ffyrdd o weithio ac arferion da ers i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ddod i rym yn 2007.

Yn ail, bydd y Cod wedi'i ddiweddarau yn cynnwys canllawiau newydd ar gyfer gweithredu'r LPS. Mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr yn deall ac yn cymhwyso egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 i'r broses LPS. Nod cynhyrchu un Cod Ymarfer trosfwaol yw sicrhau bod egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cael eu gwreiddio'n gadarn o fewn yr LPS o ddydd eu cyflwyno.

Gan fod y Cod Ymarfer yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr – mae Llywodraeth y DU yn gofyn am sylwadau gan randdeiliaid o'r ddwy wlad. Bydd Llywodraeth y DU yn trafod unrhyw ganlyniadau i'r ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer drafft sy'n ymwneud â Chymru â Llywodraeth Cymru cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol. Ar ben hynny, bydd Llywodraeth y DU yn rhannu ymatebion i'r ymgynghoriad gan randdeiliaid yng Nghymru ar y Cod Ymarfer drafft â Llywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr ymatebion hyn er mwyn cyfrannu at fersiynau terfynol y Rheoliadau drafft ar gyfer Cymru a fydd yn cefnogi'r broses o'u rhoi ar waith. Felly, rydym yn annog rhanddeiliaid

yng Nghymru i ystyried y Cod Ymarfer drafft hefyd ac i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y DU.¹¹

Ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar Reoliadau trosiannol a diwygiadau canlyniadol

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn ymgynghori ar Reoliadau drafft ar y trefniadau trosiannol sy'n ofynnol i ganiatáu i'r LPS a'r DoLS redeg ochr yn ochr i ddechrau yn ystod flwyddyn gyntaf gweithredu'r LPS i sicrhau cyfnod pontio didrafferth o'r system bresennol i'r system newydd. Mae angen diwygio deddfwriaeth arall hefyd o ganlyniad i'r MC(A)A 2019. Y Rheoliadau hyn yw:

- Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2022 (Cychwyn, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) ("y Rheoliadau Cychwyn")
- Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2022 (Darpariaethau Canlyniadol) ("y Rheoliadau Darpariaethau Canlyniadol")

Mae'r Rheoliadau Cychwyn yn cychwyn y darpariaethau yn Neddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019, a fydd yn rhoi'r LPS ar waith. Maent hefyd yn caniatáu i ddarpariaethau DoLS aros yn eu lle am flwyddyn ar ôl eu rhoi ar waith, er mwyn caniatáu i'r ddwy set o fesurau diogelu redeg ar yr un pryd. Ni ddylid rhoi unrhyw awdurdodiadau DoLS newydd ar ôl i'r LPS gael eu rhoi ar waith, ond bydd y flwyddyn pontio yn caniatáu i'r rhai sydd o dan awdurdodiad DoLS barhau i gael mynediad at fesurau diogelu nes bydd eu hawdurdodiad yn dod i ben.

Byddem yn annog rhanddeiliaid yng Nghymru i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y Rheoliadau drafft hyn.

¹¹ [Ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y Cod Ymarfer LPS drafft](#)

Atodiad 1 - CRYNODEB: Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol) (Cymru) (Diwygio) 2022

1. Roedd Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 ("MC(A)A 2019") yn diwygio Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ("MCA 2005") i ddarparu ar gyfer proses newydd o'r enw'r LPS ar gyfer awdurdodi trefniadau i alluogi gofal neu driniaeth i bersonau nad oes ganddynt alluedd i gydsynio i'r trefniadau, sy'n arwain at eu hamddifadu o'u ryddid.
2. Yn benodol, mae MC(A)A 2019 yn mewnosod Atodlen newydd AA1 i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 sy'n cynnwys y cynllun gweinyddol newydd ar gyfer awdurdodi'r trefniadau hynny ("Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid"). Bydd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn disodli'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a nodir yn Atodlen A1 Deddf Galluedd Meddyliol 2005.
3. Mae'r Rheoliadau drafft hyn yn diwygio Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/852 (Cy. 77)) ("y Prif Reoliadau") o ganlyniad i weithredu'r system newydd o Ddiogeliadau Amddiffyn Rhyddid a gyflwynwyd gan MC(A)A 2019.
4. Ni fydd Rheoliadau 1, 3, 4, 8 a 9 o'r Prif Reoliadau yn cael eu diwygio gan y Rheoliadau hyn a byddant yn parhau mewn grym ac yn gymwys i rôl Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Cymeradwy ("IMCAs").
5. Bydd y Rheoliadau drafft hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau 2, 5, 6 a 7 y Prif Reoliadau i sicrhau y bydd personau a benodir yn IMCA yn y system Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid newydd yn ddarostyngedig i'r un gofynion penodi ag y mae IMCA ar hyn o bryd o dan y Prif Reoliadau ac y bydd y rhai a benodir felly yn cael eu hawdurdodi i gyflawni swyddogaethau sy'n briodol i'r gofynion a osodir gan MC(A)A 2019.
6. Mae rheoliad 2 (dehongli) y Prif Reoliadau ar hyn o bryd yn nodi diffiniadau ar gyfer nifer o dermau a ddefnyddir yn y Prif Reoliadau a thrwy gydol y Rheoliadau (megis "IMCA", "y Ddeddf" ac "awdurdod lleol"). Bydd rheoliad 2 yn cael ei ddiwygio i ychwanegu diffiniadau newydd ar gyfer Atodlen AA1, "trefniadau" a "Corff Cyfrifol".
7. Mae rheoliad 2 y Prif Reoliadau hefyd yn nodi y bwriedir i unrhyw gyfeiriad at gyfarwyddo IMCA olygu cyfarwyddiadau o dan adrannau 37, 38, 39, 39A, 39C a 39D o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Dan yr adrannau hynny rhaid cyfarwyddo IMCA os:
 - cynigir triniaeth feddygol ddifrifol neu lety tymor hir mewn ysbyty neu gartref gofal gan y GIG neu ofal preswyl gan awdurdod lleol (adrannau 37-39)
 - bydd person yn dod yn "ddarostyngedig i'r" DoLS ac nad oes unrhyw berson (ac eithrio gofalwr proffesiynol neu ofalwr cyflogedig) i ymgynghori ag ef neu hi wrth benderfynu ar les pennaf person (adran 39A);

- daw penodiad cynrychiolydd personau perthnasol i ben ac nad oes unrhyw un (ac eithrio gofalwr proffesiynol neu ofalwr cyflogedig) i ymgynghori ag ef neu hi wrth ddod i benderfyniad ynghylch lles pennaf y person (adran 39C);
 - os oes awdurdodiad yn ei le a bod y person sy'n ddarostyngedig i'r awdurdodiad neu ei gynrychiolydd yn gwneud cais am IMCA neu os yw'n ymddangos i'r corff goruchwyllo bod IMCA yn angenrheidiol (adran 39D).
8. Bydd rheoliad 2 hefyd yn cael ei ddiwygio i ddileu cyfeiriad at adran 39A, 39C a 39D o Ddeddf 2005 (gweler paragraffau 7(b),(c) a (d) uchod) gan y bydd y rhain yn cael eu dirymu gan MC(A)A 2019. Bydd y cyfeiriadau hyn yn cael eu disodli gan gyfeiriadau at Atodlen AA1 a fydd yn nodi'r gofynion ar gyfer cyfarwyddo IMCA dan y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid.
 9. Mae rheoliad 5 (penodi eiriolwyr galluedd meddyliol annibynnol) o'r Prif Reoliadau yn darparu bod rhaid i fwrdd iechyd lleol ("BILI") wneud trefniadau fel bod IMCA ar gael i breswylwyr yn ei ardal ac yn nodi'r gofynion penodi gan gynnwys profiad, hyfforddiant, cymeriad da ac annibyniaeth. Bydd y Rheoliadau drafft hyn yn gwneud mân newidiadau technegol i adlewyrchu trosglwyddo swyddogaethau'r Cynulliad i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) ac i adlewyrchu dirymu adran 39A, 39C a 39D i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.
 10. Bydd Rheoliad 6 (swyddogaethau eiriolwr annibynnol galluedd meddyliol) o'r Prif Reoliadau yn cael ei ddiwygio i egluro y gall IMCA, yn ychwanegol at gyfarwyddiadau gan fwrdd iechyd lleol neu awdurdod lleol o dan adran 37-39 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, gael ei gyfarwyddo hefyd gan Gorff Cyfrifol o dan yr Atodlen AA1 newydd. Mae'r diwygiadau yn benodol yn mewnosod paragraff (8) newydd nad yw ond yn berthnasol mewn perthynas ag IMCA sy'n cael ei gyfarwyddo gan Gorff Cyfrifol mewn achos y mae paragraff 42 o Ran 5 o Atodlen AA1 yn gymwys iddo. Mae paragraff 42 yn ymwneud â phan fo gan berson alluedd a'i fod wedi gofyn am IMCA neu pan nad oes gan berson alluedd (oni bai fod y Corff Cyfrifol o'r farn na fyddai er lles pennaf y person). Mae'r diwygiadau'n nodi swyddogaethau'r IMCA, os caiff ei benodi o dan baragraff 42 o Atodlen AA1.
 11. Mae'r Rheoliadau drafft hyn yn diwygio rheoliad 7 o'r Prif Reoliadau (heriau i benderfyniadau sy'n effeithio ar bersonau nad oes ganddynt alluedd) drwy fewnosod paragraff (3) newydd sy'n gymwys i IMCA a benodir o dan baragraff 42 o Atodlen AA1. Mae'r rheoliad 7(3) newydd yn nodi y caiff IMCA gyflwyno sylwadau i berson sy'n cynnal adolygiad cyn-awdurdodi, cynorthwyo'r person sy'n derbyn gofal i ofyn am adolygiad, gwneud sylwadau i sicrhau hawliau'r person sy'n derbyn gofal mewn perthynas â threfniadau neu drefniadau arfaethedig yn ôl y digwydd a gwneud cais i'r Llys Gwarchod, neu gynorthwyo'r person sy'n derbyn gofal i wneud un.

Atodiad 2 - CRYNODEB: Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Cymhwysra i gynnal Asesiadau, Gwneud Penderfyniadau a Chynnal Adolygiadau Cyn Awdurdodi) (Cymru) 2022

1. Roedd Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 ("MC(A)A 2019") yn diwygio Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ("MCA 2005") i ddarparu ar gyfer proses newydd o'r enw'r LPS ar gyfer awdurdodi trefniadau i alluogi gofal neu driniaeth i bersonau nad oes ganddynt alluedd i gydsynio i'r trefniadau, sy'n arwain at eu hamddifadu o'u rhyddid.
2. Yn benodol, mae MC(A)A 2019 yn mewnosod Atodlen newydd AA1 i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 sy'n cynnwys y cynllun gweinyddol newydd ar gyfer awdurdodi'r trefniadau hynny ("Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid"). Bydd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn disodli'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a nodir yn Atodlen A1 Deddf Galluedd Meddyliol 2005.
3. Rhaid i drefniant sy'n arwain at amddifadu o ryddid gael ei awdurdodi gan Gorff Cyfrifol (awdurdod lleol neu fwrdd ieuchyd lleol yng Nghymru).
4. Er mwyn i'r Corff Cyfrifol ddod i benderfyniad ynghylch awdurdodiad, mae angen cynnal asesiad a gwneud penderfyniad i sefydlu a yw'r tri amod awdurdodi canlynol yn cael eu bodloni:
 - rhaid i'r person y cynigir y trefniadau hynny mewn perthynas ag ef fod heb alluedd i gydsynio â'r trefniadau;
 - mae gan y person anhwylder meddwl; a
 - mae'r trefniadau'n angenrheidiol i atal niwed i'r person ac maent yn gymesur o ran tebygolrwydd a difrifoldeb y niwed iddynt.
5. Mae'r Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Cymhwysra i Gynnal Asesiadau, Gwneud Penderfyniadau a Chynnal Adolygiadau Cyn Awdurdodi) (Cymru) drafft yn nodi'r gofynion cymhwysra ar gyfer person i gynnal yr asesiadau canlynol:
 - asesiad i weld a oes gan berson ddiffyg galluedd i gydsynio i'r trefniadau ("*asesiad galluedd*");
 - asesiad i weld a oes gan berson anhwylder meddwl ("*asesiad meddygol*"); ac
 - asesiad i weld a yw'r trefniadau'n angenrheidiol i atal niwed i'r person ac yn gymesur o ran tebygolrwydd a difrifoldeb y niwed i'r person ("*asesiad angenrheidiol a chymesur*").

Gofynion Cymhwysra Cyffredinol

6. Mae'r gofynion cymhwysra cyffredinol ar gyfer asesiadau a phenderfyniadau yn cynnwys sicrhau bod unrhyw berson sy'n cynnal unrhyw un o'r tri asesiad:
- wedi'i yswirio mewn perthynas ag unrhyw rwymedigaethau a allai godi mewn cysylltiad â chynnal yr asesiad;
 - yn meddu ar y sgiliau a'r profiad sy'n briodol i'r asesiad sydd i'w gynnal, gan gynnwys defnyddio gwybodaeth am Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Cod Ymarfer;
 - yn gallu cadw cofnodion priodol a darparu adroddiadau clir a rhesymegol yn unol â gofynion cyfreithiol ac arferion da;
 - yn cael gwiriad cofnodion troseddol manwl;
 - ddim yn perthyn i'r person y cynhelir yr asesiad ohono;
 - heb unrhyw fuddiant ariannol yng ngofal y person, neu ddim yn perthyn i berson sydd â buddiant ariannol yng ngofal y person.

Gofynion Cymhwysra o ran Galluedd

7. Mae'r gofynion cymhwysra ychwanegol sy'n berthnasol i asesu a phenderfynu ar alluedd yn cynnwys yr angen i'r person hwnnw fod yn feddyg, yn nyrs, yn therapydd galwedigaethol, yn weithiwr cymdeithasol, yn ymarferydd seicoleg neu'n therapydd iaith a lleferydd sydd wedi'i gofrestru'n briodol â'r corff rheoleiddio priodol (a heb ei atal o'i waith) (er enghraifft y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal). Nid oes angen i'r asesiad a'r penderfyniad gael eu gwneud gan yr un person.

Gofynion Cymhwysra Meddygol

8. Mae gofynion cymhwysra ychwanegol yn berthnasol i'r penderfyniad a'r asesiad meddygol sy'n cynnwys yr angen i'r person hwnnw fod naill ai'n ymarferydd meddygol cofrestredig neu'n ymarferydd seicoleg. Nid oes angen i'r asesiad a'r penderfyniad gael eu gwneud gan yr un person.

Gofynion Cymhwysra Angenrheidiol a Chymesur

9. O ran asesiad angenrheidiol a chymesur, mae'r meini prawf cymhwysra yn cynnwys yr angen i'r person hwnnw fod yn feddyg, yn nyrs, yn therapydd galwedigaethol, yn weithiwr cymdeithasol, yn ymarferydd seicoleg neu'n therapydd iaith a lleferydd sydd wedi'i gofrestru'n briodol â'r corff rheoleiddio priodol (a heb ei atal o'i waith) (er enghraifft y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal). Yn ogystal, rhaid iddynt hefyd feddu ar y sgiliau angenrheidiol i gael, gwerthuso a dadansoddi tystiolaeth gymhleth a safbwyntiau gwahanol a'u pwysu a'u mesur yn briodol wrth wneud penderfyniadau. Yn wahanol i'r asesiadau galluedd neu feddygol, rhaid i'r person sy'n cynnal yr asesiad hefyd wneud y penderfyniad.

Adolygiad Cyn-Awdurdodi

10. Ar ôl cwblhau'r tri asesiad, rhaid i berson nad yw'n ymwneud â gofalu am y person o ddydd i ddydd, neu â darparu unrhyw driniaeth iddo, ac nad oes ganddo gysylltiad rhagnodedig â chartref gofal, gynnal adolygiad cyn-awdurdodi. Mae adolygiad cyn-awdurdodi yn adolygiad y mae'n rhaid ei gynnal i benderfynu a yw amodau awdurdodiad wedi eu bodloni mewn perthynas â threfniadau arfaethedig neu a yw'n rhesymol i gorff ddod i'r casgliad bod yr amodau awdurdodiad wedi eu bodloni (gweler paragraff 3 uchod). Mae'r Rheoliadau drafft hyn hefyd yn rhagnodi'r amgylchiadau pan fydd gan berson gysylltiad â chartref gofal at ddibenion adolygiad cyn-awdurdodi sy'n cynnwys ei rolau a'i gyfrifoldebau yn y cartref gofal hwnnw (neu mewn cwmni sy'n gysylltiedig â'r cartref gofal hwnnw), ei fod yn aelod o gorff llywodraethu'r cartref gofal hwnnw, neu ei fod â buddiant ariannol yn y cartref gofal hwnnw. Mae'r Rheoliadau drafft hefyd yn diffinio'r term "buddiant ariannol".

Atodiad 3 - CRYNODEB: Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Hyfforddiant a Meini Prawf ar gyfer Cymeradwyaeth fel Proffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy (Cymru) 2022

1. Roedd Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 ("MC(A)A 2019") yn diwygio Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ("MCA 2005") i ddarparu ar gyfer proses newydd o'r enw'r LPS ar gyfer awdurdodi trefniadau i alluogi gofal neu driniaeth i bersonau nad oes ganddynt alluedd i gydsynio i'r trefniadau, sy'n arwain at eu hamddifadu o'u rhyddid.
2. Yn benodol, mae MC(A)A 2019 yn mewnosod Atodlen newydd AA1 i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 sy'n cynnwys y cynllun gweinyddol newydd ar gyfer awdurdodi'r trefniadau hynny ("Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid"). Bydd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn disodli'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a nodir yn Atodlen A1 Deddf Galluedd Meddyliol 2005.
3. Rhaid i drefniant sy'n arwain at amddifadu o ryddid gael ei awdurdodi gan Gorff Cyfrifol (yn nodweddiadol, awdurdod lleol neu fwrdd iechyd lleol yng Nghymru).
4. Cyn y gellir awdurdodi trefniadau o'r fath, rhaid cynnal adolygiad cyn-awdurdodi i benderfynu a yw'r amodau awdurdodiad wedi'u bodloni neu a yw'n rhesymol dod i'r casgliad bod yr amodau awdurdodiad wedi'u bodloni. Mewn rhai amgylchiadau, rhaid i'r adolygiad cyn-awdurdodi hwn gael ei gynnal gan Broffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy (AMCP). Mewn rhai amgylchiadau, bydd AMCP hefyd yn penderfynu a yw amodau awdurdodiad yn cael eu bodloni ar ôl adolygu'r trefniadau (gweler paragraffau 3 a 9 o Atodiad 2).
5. Mae'r Rheoliadau drafft hyn:
 - yn nodi'r meini prawf y mae'n rhaid i berson sy'n gymwys i gael ei gymeradwyo gan awdurdod lleol yng Nghymru fel AMCP eu bodloni. Mae'r proffesiynau canlynol yn gymwys i gael eu cymeradwyo fel AMCP:
 - i. nyrs lefel gyntaf;
 - ii. gweithiwr cymdeithasol cofrestredig yn y DU;
 - iii. ymarferydd seicoleg;
 - iv. therapydd iaith a lleferydd; neu
 - v. therapydd galwedigaethol.
 - yn pennu'r materion y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu hystyried cyn cymeradwyo person yn AMCP. Mae hyn yn cynnwys bod yr awdurdod lleol yn fodlon bod gan y person wybodaeth gymhwysol am Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Cod Ymarfer; y gallu i gadw cofnodion priodol a darparu adroddiadau clir a rhesymegol yn unol â gofynion cyfreithiol ac arfer da; ac mae ganddo wybodaeth am arfer gorau mewn perthynas â threfniadau yng Nghymru;
 - yn nodi'r trefniadau ar gyfer hyfforddiant y mae'n rhaid i unigolyn fod wedi'u cwblhau cyn cael ei gymeradwyo fel AMCP. Gall Aseswyr Lles Pennaf (BIA)

presennol gweithredol gael hyfforddiant trosi, na fydd wedi'i achredu ond a fydd wedi'i gymeradwyo gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Bydd angen i AMCP newydd nad ydynt yn Asesydd Lles Gorau ar hyn o bryd gwblhau hyfforddiant cychwynnol, a fydd yn gwrs achrededig;

- yn nodi'r meini prawf ar gyfer parhau â'r gymeradwyaeth, gan gynnwys cadarnhau faint o hyfforddiant y mae'n rhaid i AMCP ymgymryd ag ef bob blwyddyn (18 awr). Rhaid i hyfforddiant pellach gael ei gymeradwyo gan naill ai'r awdurdod lleol sy'n cymeradwyo neu Gofal Cymdeithasol Cymru;
 - yn nodi'r meini prawf ar gyfer esemptiadau rhag y gofyniad i ymgymryd â hyfforddiant pellach, gan gynnwys y gofynion y mae'n rhaid i berson sydd wedi cael esemptiad eu bodloni er mwyn cyflawni swyddogaethau fel AMCP;
 - yn nodi'r amgylchiadau pryd y bydd cymeradwyaeth person fel AMCP yn cael ei hatal/ei hatal dros dro, a sut y bydd diwedd ataliad yn cael ei reoli;
 - yn nodi pwy sy'n gallu cymeradwyo hyfforddiant ar gyfer AMCP yng Nghymru a phwy sy'n gallu cymeradwyo cyrsiau a fydd yn galluogi pobl sy'n Aseswyr Lles Pennaf o dan DoLS i ddod yn AMCP; a
 - galluogi awdurdod lleol i gymeradwyo Asesydd Lles Pennaf fel AMCP cyn belled bod amodau penodol yn cael eu bodloni.
6. Caiff mwy nag un awdurdod lleol gymeradwyo AMCP yng Nghymru a gall awdurdodau lleol gytuno i un awdurdod lleol gymeradwyo AMCP ar ran nifer o awdurdodau lleol. Bydd hyn yn caniatáu i AMCP weithio ar draws sawl ardal awdurdod lleol a bwrdd iechyd. Fodd bynnag, mae pob awdurdod lleol yn gyfrifol am sicrhau bod digon o AMCP ar gyfer ei ardal. Dylai cynllunio'r gweithlu'n lleol bennu'r dull o reoli a phenderfynu ar gapasiti o ran AMCP.

Atodiad 4 - CRYNODEB: Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Monitro ac Adrodd (Cymru) 2022

1. Roedd Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 ("MC(A)A 2019") yn diwygio Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ("MCA 2005") i ddarparu ar gyfer proses newydd o'r enw'r LPS ar gyfer awdurdodi trefniadau i alluogi gofal neu driniaeth i bersonau nad oes ganddynt alluedd i gydsynio i'r trefniadau, sy'n arwain at eu hamddifadu o'u rhyddid.
2. Yn benodol, mae MC(A)A 2019 yn mewnosod Atodlen newydd AA1 i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 sy'n cynnwys y cynllun gweinyddol newydd ar gyfer awdurdodi'r trefniadau hynny ("Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid"). Bydd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn disodli'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a nodir yn Atodlen A1 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.
3. Mae'r Rheoliadau drafft hyn yn darparu ar gyfer monitro ac adrodd ar weithrediad Atodlen AA1 mewn perthynas â Chymru.
4. Mae'r Rheoliadau yn diffinio "corff monitro perthnasol". Y corff monitro perthnasol yn achos person mewn lleoliad gofal cymdeithasol fydd Arolygiaeth Gofal Cymru ac mewn lleoliad gofal ieuchyd, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru fydd y corff hwnnw. Os yw'r person yn 16 neu'n 17 oed neu'n cael darpariaeth addysgol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Addysg 2018, y corff monitro perthnasol fydd Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, ynghyd ag AGC neu AGIC.
5. Rhaid i'r corff monitro perthnasol fonitro ac adrodd ar y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid mewn perthynas â Chymru. Gall y cyrff monitro perthnasol weithio gyda'i gilydd i gyflawni eu dyletswyddau i fonitro ac adrodd ar weithrediad y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid. Gall cyrff monitro ofyn am gymorth gan gorff monitro arall at ddibenion eu dyletswydd i fonitro ac adrodd ar yr LPS os ydynt yn credu y bydd cymorth o'r fath:
 - a) yn cael effaith gadarnhaol ar y modd y mae'r corff monitro yn cyflawni ei ddyletswydd, neu
 - b) yn cynorthwyo'r corff monitro i gyflawni ei ddyletswydd.
6. Mae dyletswydd hefyd yn cael ei gosod ar gyrfon monitro i gydymffurfio ag unrhyw gais a wneir am gymorth gan gorff monitro arall oni bai ei fod naill ai wedi'i atal rhag gwneud hynny gan y gyfraith, neu os byddai gwneud hynny'n anghydnaws â'i ddyletswydd ei hun i fonitro ac adrodd neu os byddai rhoi cymorth yn cael effaith andwyol ar ei ddyletswydd ei hun i fonitro ac adrodd.
7. Os gofynnir iddo wneud hynny gan Weinidogion Cymru, caiff corff monitro perthnasol lunio adroddiad ar y cyd â chorff monitro perthnasol arall ar weithrediad y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid.
8. Bydd y Rheoliadau drafft hyn yn rhoi pwerau penodol i'r corff monitro perthnasol mewn cysylltiad â'i ddyletswyddau monitro ac adrodd. Bydd y pwerau hyn yn galluogi'r corff monitro perthnasol i ymweld ag unrhyw fan lle mae trefniant awdurdodedig yn cael ei roi ar waith; cyfarfod â pherson sy'n derbyn gofal; mynnu

bod cofnodion sy'n ymwneud â gofal neu driniaeth person sy'n derbyn gofal yn cael eu dangos a'u harchwilio; a chwrdd hefyd â pherson sy'n ymwneud â gofalu am berson sy'n derbyn gofal neu berson sydd â diddordeb mewn lles person sy'n derbyn gofal.

9. Mae darpariaeth benodol yng Nghymru, sef pan fo trefniant awdurdodedig yn cael ei wneud mewn annedd breifat neu mewn rhan o safle a ddefnyddir fel annedd breifat, rhaid i gorff monitro ofyn am ganiatâd cyn ymweld.
10. Caiff corff monitro gyfarfod â pherson sy'n derbyn gofal os yw'r person hwnnw'n cydsynio i gyfarfod â'r corff monitro. Os nad oes ganddynt y galluedd i gydsynio, yna mae angen i benderfyniad er lles pennaf gael ei wneud naill ai gan atwrnai dan Atwrneiaeth Arhosol neu ddirprwy a benodir gan y Llys Gwarchod, sydd â'r awdurdod perthnasol. Os nad oes person o'r fath yn bod, gall unrhyw un sy'n ymwneud â gofalu am les y person neu sydd â diddordeb yn lles y person, mewn ymgynghoriad ag eraill a chan ystyried gofynion Deddf Galluedd Meddyliol 2005, wneud penderfyniad er lles pennaf. Gall hyn gynnwys y cryf monitro.
11. Gellir cynnal cyfarfodydd gyda'r person sy'n derbyn gofal yn y man lle mae'r awdurdodiad ar waith neu mewn unrhyw fan arall ac yn unol â barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn (er enghraifft, os yw'r person sy'n derbyn gofal yn gofyn am gynnal y cyfarfod yn breifat, yna rhaid i'r corff monitro perthnasol gynnal y cyfarfod hwnnw'n breifat).
12. Rhaid i'r Corff Cyfrifol sy'n awdurdodi trefniant hysbysu corff monitro perthnasol am unrhyw achosion lle mae'n awdurdodi, yn adnewyddu neu'n amrywio trefniant awdurdodedig a phan fo trefniant awdurdodedig yn dod i ben. Rhaid gwneud hysbysiadau o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt. Yng Nghymru, bydd yr amserlenni hyn yn cael eu nodi fel rhan o Strategaeth Monitro ac Adrodd yr LPS genedlaethol a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn. Gall y Cyrff Monitro hefyd ofyn am ddata penodol gan y Corff Cyfrifol er mwyn cyflawni ei swyddogaethau.

**Ffurflen
Ymateb i'r
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

E-bost / Rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol) (Cymru) (Diwygio) 2022

Cwestiwn 1: A ydych chi'n cytuno bod y diwygiadau i Reoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol) (Cymru) 2007 yn nodi'n glir ac yn ddigonol swyddogaethau'r IMCA o dan yr LPS?

Cytuno'n gryf

☐

Cytuno braidd

☐

Ddim yn cytuno neu anghytuno

☐

Anghytuno braidd

☐

Anghytuno'n gryf

☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n ategu eich ymateb i Gwestiwn 1, dylech ei chynnwys yma.

Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Cymhwysra i gynnal Asesiadau, Gwneud Penderfyniadau a Chynnal Adolygiadau Cyn Awdurdodi) (Cymru) 2022

Cwestiwn 2: A ydych chi'n cytuno bod y Rheoliadau drafft ar gynnal asesiadau, gwneud penderfyniadau a chynnal adolygiadau cyn-awdurdodi yn glir ac yn ddigonol?

Cytuno'n gryf ☐

Cytuno braidd ☐

Ddim yn cytuno neu anghytuno ☐

Anghytuno braidd ☐

Anghytuno'n gryf ☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n ategu eich ymateb i Gwestiwn 2, dylech ei chynnwys yma.

Cwestiwn 3: A ydych chi'n cytuno bod y Rheoliadau drafft yn galluogi'r gweithwyr proffesiynol perthnasol i gynnal asesiadau a gwneud penderfyniadau?

Cytuno'n gryf ☐

Cytuno braidd ☐

Ddim yn cytuno neu anghytuno ☐

Anghytuno braidd ☐

Anghytuno'n gryf ☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n ategu eich ymateb i Gwestiwn 3, dylech ei chynnwys yma.

Cwestiwn 4: A ydych chi'n cytuno bod y Rheoliadau drafft sy'n ymwneud â buddiant ariannol yn darparu'r mesurau diogelu angenrheidiol ar gyfer yr unigolyn sy'n derbyn gofal?

Cytuno'n gryf

☐

Cytuno braidd

☐

Ddim yn cytuno neu anghytuno

☐

Anghytuno braidd

☐

Anghytuno'n gryf

☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n ategu eich ymateb i Gwestiwn 4, dylech ei chynnwys yma.

Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Hyfforddiant a Meini Prawf ar gyfer Cael Cymeradwyaeth fel Proffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy (Cymru) 2022

Cwestiwn 5: A ydych chi'n cytuno bod y Rheoliadau drafft ar rôl a phenodi AMCP yn glir ac yn ddigonol?

Cytuno'n gryf

☐

Cytuno braidd

☐

Ddim yn cytuno neu anghytuno

☐

Anghytuno braidd

☐

Anghytuno'n gryf

☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n ategu eich ymateb i Gwestiwn 5, dylech ei chynnwys yma.

Cwestiwn 6: A ydych chi'n cytuno bod y Rheoliadau drafft yn galluogi'r gweithwyr proffesiynol perthnasol i gyflawni rôl AMCP?

Cytuno'n gryf

☐

Cytuno braidd

☐

Ddim yn cytuno neu anghytuno

☐

Anghytuno braidd

☐

Anghytuno'n gryf

☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n ategu eich ymateb i Gwestiwn 6, dylech ei chynnwys yma.

Cwestiwn 7: A ydych chi'n cytuno â'r trefniadau ar gyfer cymeradwyo AMCP?

Cytuno'n gryf ☐

Cytuno braidd ☐

Ddim yn cytuno neu anghytuno ☐

Anghytuno braidd ☐

Anghytuno'n gryf ☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n ategu eich ymateb i Gwestiwn 7, dylech ei chynnwys yma.

Cwestiwn 8: Bydd tri phrif fath o hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar gyfer AMCP: hyfforddiant trosi; hyfforddiant cychwynnol; a hyfforddiant pellach. A ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu cyffredinol sy'n cael ei ddefnyddio i ddarparu hyfforddiant ar gyfer AMCP?

Cytuno'n gryf ☐

Cytuno braidd ☐

Ddim yn cytuno neu anghytuno ☐

Anghytuno braidd ☐

Anghytuno'n gryf ☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n ategu eich ymateb i Gwestiwn 8, dylech ei chynnwys yma.

Cwestiwn 9: Gan gyfeirio'n benodol at hyfforddiant pellach, ydych chi'n cytuno â'r canlynol:

- i. y gofyniad arfaethedig i gyflawni 18 awr o hyfforddiant pellach bob blwyddyn?

Cytuno'n gryf ☐

Cytuno braidd ☐

Ddim yn cytuno neu anghytuno ☐

Anghytuno braidd ☐

Anghytuno'n gryf ☐

- ii. bod cynnwys hyfforddiant pellach ddim wedi'i achredu ac yn cael ei gymeradwyo gan naill ai Gofal Cymdeithasol Cymru neu awdurdod lleol yng Nghymru?

Cytuno'n gryf ☐

Cytuno braidd ☐

Ddim yn cytuno neu anghytuno ☐

Anghytuno braidd ☐

Anghytuno'n gryf ☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n ategu eich ymateb i Gwestiwn 9, dylech ei chynnwys yma.

--

Cwestiwn 10: A ydych chi'n cytuno y dylai'r Rheoliadau drafft alluogi awdurdodau lleol i gydweithio â'u partneriaid i sefydlu trefniadau rhanbarthol neu genedlaethol ar gyfer cymeradwyo AMCP?

Cytuno'n gryf

☐

Cytuno braidd

☐

Ddim yn cytuno neu anghytuno

☐

Anghytuno braidd

☐

Anghytuno'n gryf

☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n ategu eich ymateb i Gwestiwn 10, dylech ei chynnwys yma.

Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Monitro ac Adrodd) (Cymru) 2022

Cwestiwn 11: A ydych chi'n cytuno bod y Rheoliadau drafft ar fonitro ac adrodd yn glir ac yn ddigonol?

Cytuno'n gryf ☐

Cytuno braidd ☐

Ddim yn cytuno neu anghytuno ☐

Anghytuno braidd ☐

Anghytuno'n gryf ☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n ategu eich ymateb i Gwestiwn 11, dylech ei chynnwys yma.

Cwestiwn 12: Pan fo trefniant awdurdodedig yn cael ei wneud mewn annedd breifat neu mewn rhan o safle a ddefnyddir fel annedd breifat, rhaid i gorff monitro ofyn am ganiatâd cyn ymweld. Hefyd, bydd corff monitro yn gofyn am ganiatâd gan y person sy'n derbyn gofal cyn cyfarfod â hwy. Os nad oes gan berson sy'n derbyn gofal y galluedd i gydsynio, yna bydd angen gwneud penderfyniad er lles pennaf ynghylch cyfarfod o'r fath. Gall hyn gynnwys y cyrff monitro. A ydych chi'n cytuno bod y dull gweithredu sy'n seiliedig ar gydsyniad rydym yn ei gynnig ar gyfer monitro ac adrodd yn adlewyrchu hawliau pobl ac yn darparu mesurau diogelu digonol?

Cytuno'n gryf ☐

Cytuno braidd ☐

Ddim yn cytuno neu anghytuno ☐

Anghytuno braidd ☐

Anghytuno'n gryf ☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n ategu eich ymateb i Gwestiwn 12, dylech ei chynnwys yma.

Cwestiynau ymgynghori ehangach ynghylch gweithredu'r LPS yng Nghymru

Cwestiwn 13: A ydych chi'n cytuno bod y Rheoliadau'n amddiffyn hawliau'r person a'r defnyddwyr gwasanaethau?

Cytuno'n gryf ☐

Cytuno braidd ☐

Ddim yn cytuno neu anghytuno ☐

Anghytuno braidd ☐

Anghytuno'n gryf ☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n ategu eich ymateb i Gwestiwn 13, dylech ei chynnwys yma.

Cwestiwn 14: Rydym hefyd yn ymgynghori ar Femorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) drafft sy'n darparu amcangyfrifon o gostau a manteision / effeithiau ariannol gweithredu'r Rheoliadau LPS yng Nghymru. A ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o gostau a manteision / effeithiau ariannol y Rheoliadau LPS sydd wedi'u nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft?

Cytuno'n gryf ☐

Cytuno braidd ☐

Ddim yn cytuno neu anghytuno ☐

Anghytuno braidd ☐

Anghytuno'n gryf ☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n ategu eich ymateb i Gwestiwn 14, dylech ei chynnwys yma.

Cwestiwn 15: Fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, rydym wedi cynnwys eitemau data arfaethedig ar gyfer Set Ddata Sylfaenol Genedlaethol LPS – sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd. A ydych chi'n cytuno â'r eitemau data sydd wedi'u cynnwys yn y Set Ddata Sylfaenol Genedlaethol ddrafft ar gyfer yr LPS yng Nghymru?

Cytuno'n gryf

☐

Cytuno braidd

☐

Ddim yn cytuno neu anghytuno

☐

Anghytuno braidd

☐

Anghytuno'n gryf

☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n ategu eich ymateb i Gwestiwn 15, dylech ei chynnwys yma.

Cwestiwn 16: Rydym wedi cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant drafft i ymgynghori yn ei gylch ochr yn ochr â'r Rheoliadau drafft ar gyfer Cymru a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft. A ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o effeithiau Rheoliadau LPS ar hawliau plant a nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant?

Cytuno'n gryf

☐

Cytuno braidd

☐

Ddim yn cytuno neu anghytuno

☐

Anghytuno braidd

☐

Anghytuno'n gryf

☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n ategu eich ymateb i Gwestiwn 16, dylech ei chynnwys yma.

Cwestiwn 17: Rydym hefyd wedi cyhoeddi Asesiad Effaith Cydraddoldeb drafft i ymgynghori yn ei gylch ochr yn ochr â'r Rheoliadau drafft ar gyfer Cymru a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft. A ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o effeithiau'r Rheoliadau LPS ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig?

Cytuno'n gryf

☐

Cytuno braidd

☐

Ddim yn cytuno neu anghytuno

☐

Anghytuno braidd

☐

Anghytuno'n gryf

☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n ategu eich ymateb i Gwestiwn 17, dylech ei chynnwys yma.

Cwestiwn 18: Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ar wahân ar Gynllun Gweithlu a Fframwaith Hyfforddi – ac mae crynodeb o hwn wedi'i gynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. A ydych chi'n cytuno y bydd Cynllun Gweithlu a Fframwaith Hyfforddi'r LPS yn hyrwyddo ac yn gwreiddio cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn?

Cytuno'n gryf

☐

Cytuno braidd

☐

Ddim yn cytuno neu anghytuno

☐

Anghytuno braidd

☐

Anghytuno'n gryf

☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n ategu eich ymateb i Gwestiwn 18, dylech ei chynnwys yma.

Cwestiwn 19: Rydym hefyd wedi cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg drafft i ymgynghori yn ei gylch ochr yn ochr â'r Rheoliadau drafft ar gyfer Cymru a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft. A ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o effeithiau Rheoliadau LPS ar yr Iaith Gymraeg?

Cytuno'n gryf

☐

Cytuno braidd

☐

Ddim yn cytuno neu anghytuno

☐

Anghytuno braidd

☐

Anghytuno'n gryf

☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n ategu eich ymateb i Gwestiwn 19, dylech ei chynnwys yma.

Cwestiwn 20: Hoffem glywed eich barn am yr effeithiau y byddai'r Rheoliadau drafft ar gyfer Cymru sy'n ategu gweithredu'r LPS yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau hyn yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 21: Hefyd, esboniwch sut rydych chi'n credu y gallai'r Rheoliadau drafft arfaethedig gael eu llunio neu eu newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 22: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle gwag hwn i wneud hynny:

Rhowch eich sylwadau yma:

--

Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhynggrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:

--